------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Menter a Busnes - Y Pedwerydd Cynulliad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 5 Ebrill 2016

Amser: 09.30 - 13.16

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3584

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | William Graham AC (Cadeirydd)<br>Mick Antoniw AC<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Keith Davies AC<br>Dafydd Elis-Thomas AC<br>John Griffiths AC (yn lle Jeff Cuthbert AC)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Eluned Parrott AC<br>David Rees AC (yn lle Gwenda Thomas AC)<br>Joyce Watson AC |
| Tystion: | Tony Brady, Uno'r Undeb<br>Chris Hagg, Celsa Steel<br>Steve McCool, Cymuned<br>Tim Morris, Tata Steel Ewrop |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| | Virinder Garg, Liberty Steel Newport Ltd<br>Haydn Swidenbank, Liberty Steel Newport Ltd<br>Steve Phillips, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot<br>Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth<br>Rob Edwards, Cymuned |
| Staff y Pwyllgor: | Martha Da Gama Howells (Ail Glerc)<br>Rachel Jones (Dirprwy Glerc)<br>Ben Stokes (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod PDF 2 MB. Gweld fel HTML 311 KB.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Jeff Cuthbert AC a Gwenda Thomas AC. Dirprwyodd David Rees AC ar ran Gwenda Thomas AC a dirprwyodd John Griffiths AC ar ran Jeff Cuthbert AC.

1.2 Datganodd David Rees AC a Joyce Watson AC eu bod ill dau yn aelodau o Uno'r Undeb.

1.3 Datganodd John Griffiths AC ei fod yn aelod o Uno'r Undeb a Cymuned.

1.4 Datganodd Mick Antoniw AC ei fod yn aelod o GMB.

## 2 Cynrychiolwyr diwydiant - Cymorth ar gyfer y Diwydiant Dur yng Nghymru

2.1 Atebodd Tim Morris, Chris Hagg, Virinder Garg a Haydn Swidenbank gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

## 3 Cynrychiolwyr undebau – Cymorth ar gyfer y Diwydiant Dur yng Nghymru

3.1 Atebodd Steve McCool, Rob Edwards a Tony Brady gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

## 4 Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth – Cymorth ar gyfer y Diwydiant Dur yng Nghymru

4.1 Atebodd Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a Steve Phillips gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

## 5 Papurau i'w nodi

### 5.1 Gorsaf Bŵer TATA Steel Port Talbot

5.1.1 Nododd y Pwyllgor y papur.

## 6 Cam gweithredu yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor

Yn dilyn y cyfarfod, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y derbynyddion a ganlyn yn amlinellu pryderon ynghylch y diwydiant dur yng Nghymru:

Y Gwir Anrhydeddus David Cameron AS, Prif Weinidog y DU

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru

Y Gwir Anrhydeddus Sajid Javid AS, Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau

Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Edwina Hart MBE CStJ AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Eitem 6

Y Gwir Anrhydeddus David Cameron AS, Prif Weinidog y DU
Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru
Y Gwir Anrhydeddus Sajid Javid AS, Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes
Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Edwina Hart MBE CStJ AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

5 Ebrill 2016

**Cymorth i'r diwydiant dur yng Nghymru**

Cynhaliodd Pwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyfarfod heddiw i drafod sut y gall Llywodraethau Cymru a'r DU gynorthwyo'r diwydiant dur yng Nghymru. Roedd y sesiwn hon yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn ein cyfarfod ar 3 Mawrth.

Clywsom dystiolaeth gan gynrychiolwyr Tata Steel UK, Liberty House Steel UK, Celsa Steel a'r undebau – Cymuned a Unite. Clywsom hefyd gan y Gweinidog Llywodraeth Cymru dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

Fel Pwyllgor, rydym yn gwbl argyhoeddedig ei bod o fudd cenedlaethol i barhau i gynhyrchu dur yn y DU ac yn credu'n bendant yn nyfodol y diwydiant yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod ymdrechion sylweddol y ddwy Lywodraeth i gefnogi'r diwydiant ers deall bod Tata Steel UK ar werth. Fodd bynnag, teimlwn y gellid ac y dylid gwneud rhagor.

**Strategaeth ddiwydiannol y DU**

Rydym yn galw am strategaeth ddiwydiannol a gweithgynhyrchu rhagweithiol ar gyfer y DU; strategaeth sy'n sicrhau bod llif o brosiectau seilwaith a buddsoddi yn y DU yn manteisio ar ansawdd dur a gynhyrchir yn y DU a'r buddion amgylcheddol sydd ynghlwm wrth ei ddefnyddio.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddBusnes@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEcon@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEcon
0300 200 6565

## Caffael

Rydym yn croesawu'r nodyn polisi caffael a gyhoeddodd Llywodraeth y DU ar 30 Hydref 2015. Rydym yn ymwybodol o farn Llywodraeth Cymru fod hwn yn adlewyrchu arfer presennol yng Nghymru. Rydym yn galw am systemau monitro a rheoli effeithiol i ddwyn ein holl gomisiynwyr yn y sector cyhoeddus i gyfrif ac yn credu y dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r mesurau y cytunwyd arnynt i weithredu ac archwilio'u polisïau.

## Ardrethi Busnes

Rydym yn cydnabod bod angen cymryd gofal i sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd wrth ymdrin ag ardrethi busnes rhag i aelod-wladwriaethau eraill yr UE eu herio. Fodd bynnag, credwn fod angen i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd am hynt unrhyw gynigion i eithrio offer a pheiriannau rhag ardrethi busnes.

Yn benodol, credwn fod angen egluro'r cyfeiriad polisi yn y maes hwn a chyhoeddi rhagor o fanylion am ba bryd y cynhaliwyd trafodaethau ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio ynglŷn â hyn.

## Tariffau

Rydym yn annog Llywodraeth y DU i gymryd camau i'w gwneud yn haws i'r diwydiant dur yn y DU gystadlu, drwy gymryd yr awenau yn Ewrop i gryfhau'r mesurau i amddiffyn masnach.

## Statws economi'r farchnad

Rydym yn annog Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i wrthsefyll galwadau gan yr UE i roi statws economi marchnad i Tsieina. Byddai hyn yn dwysáu'r anawsterau sy'n wynebu'r diwydiant o ran dympio dur sydd islaw'r pris ar y farchnad.

**Tasglu Cwmni Dur Tata**

Rydym yn galw am i gwmpas ac aelodaeth Tasglu Cwmni Dur Tata gael ei ehangu. Dylai ganolbwyntio ar sicrhau bod y diwydiant dur yng Nghymru yn parhau’n rhan o farchnad y DU yn ei chyfanrwydd. Rydym yn gofyn i Weinidogion Llywodraeth y DU fod yn bresennol ym mhob cyfarfod o leiaf.

**Ynni**

Mae'r cynrychiolwyr y clywsom ganddynt am i gynhyrchwyr dur yn y DU weithredu o dan yr un amodau ag unrhyw wlad arall. Tynnwyd sylw penodol at gost ynni sy’n uwch i gynhyrchwyr y DU. Er y pecyn iawndal a gynigir gan Lywodraeth y DU maent yn dal yn wynebu costau ynni sylweddol uwch na chwmnïau eraill sy’n cystadlu â nhw.

Rydym yn cydnabod bod dulliau amrywiol y gellir eu defnyddio i leihau costau ynni. Yn yr un modd, mae cyfleoedd i ddiwydiant dur y DU wneud mwy o ddefnydd o ffynonellau adnewyddadwy, defnyddio ynni’n fwy effeithlon a chynhyrchu ynni ar eu safleoedd. Fodd bynnag, rhaid buddsoddi i roi mentrau o’r fath ar waith.

Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru esbonio’u hymdrechion i leihau cost ynni yn y diwydiant dur ac amlinellu’r cymorth a fydd ar gael i sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol diwydiant dur y DU.

**Gwerthwr cyfrifol**

Rydym yn galw ar i Tata Steel weithredu fel gwerthwr cyfrifol. I'r perwyl hwn, rydym yn eu hannog i rannu adroddiad McKinsey gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i roi digon o amser iddynt baratoi i gefnogi darpar brynwyr. Rydym hefyd yn credu y dylai Tata ymrwymo’n gyhoeddus i roi digon o amser i ddod o hyd i brynwr i Tata Steel UK.

I gloi, rydym yn siomedig nad oedd unrhyw un o Weinidogion Llywodraeth y DU yn gallu bod yn bresennol yn ein cyfarfod.

Rydym yn credu'n bendant fod dyfodol sicr a hyfyw i'r diwydiant hwn a galwn ar y ddwy Lywodraeth i gymryd camau pendant i fynd i'r afael â'r problemau sy'n ei wynebu.

Yn gywir

William Graham AC

Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes